# Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

# Diogelu

## Gwybodaeth i rieni


**Cyfeiriad:** Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles,  SA10 7ND

**Rhif ffôn** 01792 966655

**Ebost:** swyddfa@yggtregeles.npt.school

**Trydar:**@ysgoltregeles


**Rhifau ffôn defnyddiol:**

**Annelise Donovan** (01639) 763363 – Swyddog Diogelu Addysg

**John Burge** (01639) 763598 – Cefnogaeth Disgyblion a Rhieni



Lianne Vaughan

**Swyddog Dynodedig Diogelu Plant**



Sali Phillips

**Dirprwy Swyddog Dynodedig Plant**

**Beth mae diogelu yn golygu?**

- Diogelu plant rhag camdriniaeth.
- Cadw plant yn ddiogel rhag niwed megis salwch, camdriniaeth ac anafiadau.
- Atal amharu ar iechyd a datblygiad plentyn.
- Sicrhau fod ein plant yn tyfu i fyny mewn amgylchedd diogel ac effeithiol.

**Beth sy'n digwydd os oed gennym bryderon am blentyn?**

Fe fydd pob pryder am ddiogelu plant yn cael ei nodi ar system 'My Concern'. System hollol gyfrinachol yw hon sydd yn storio gwybodaeth am unrhyw bryder. Bydd y wybodaeth yma yn ein helpu i adeiladu cronoleg o bryderon er mwyn cynnig cyngor neu gefnogaeth briodol ble bo angen, gan gynnwys cefnogaeth wrth asiantaethau allanol.

Os bydd pryderon difrifol ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod rhaid eu cyfeirio ar unwaith at **Lianne Vaughan** neu **Sali Phillips**, y Swyddog Diogelu Plant Dynodedig a'r Dirprwy Swyddog Dynodedig Diogelu Plant. Nhw fydd yn penderfynu ar y cam nesaf e.e.. cyngor wrth Swyddog Diogelu'r AALl, cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gysylltu â'r heddlu.

Os oes unrhyw bryder fod plentyn mewn perygl, rhaid dilyn gweithdrefnau polisi Amddiffyn Plant yr ysgol

**Sut mae Y.G.G Tregeles yn cadw fy mhlentyn yn ddiogel?**

- Cyfrifoldeb yr ysgol ydy sicrhau fod eich plentyn yn ddiogel ac mae hyn yn cael ei gyflawni yn y ffyrdd canlynol:-
- Mae drysau allanol yr ysgol yn cael eu cadw dan glo bob amser ac mae'n rhaid i ymwelwyr fynd i'r brif fynedfa.
- Atgoffir plant yn rheolaidd eu bod ddim i agor y drysau i ymwelwyr, dim hyd yn oed eu rhieni.
- Rydym yn sicrhau fod ymwelwyr yn arwyddo mewn ac allan fel ein bod yn gwybod pwy sydd ar y safle.
- Cynhelir ymarfer tân yn dymhorol i sicrhau fod staff a phlant yn deall y drefn.
- Cynhelir gwiriad Iechyd a Diogelwch gan staff, y gofalydd a llywodraethwyr perthnasol.
- Cynhelir asesiadau risg cyn unrhyw ymweliad neu weithgaredd tu allan i'r ysgol, yn ogystal â rhai gweithgareddau yn yr ysgol.
- Mae'n amodol i bob aelod o staff gael gwiriad GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) cyn iddynt ymuno a'r ysgol.

- Mae pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant.
- Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf y staff yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Mae gan yr ysgol Swyddog Dynodedig Diogelu Plant (Lianne Vaughan) a Dirprwy Swyddog Dynodedig Diogelu Plant (Sali Phillips).